# Ordinhad 31
# Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno sydd yn ymwneud â'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Gangellorion

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 21 Medi 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Gwreiddiol

**Fersiwn:** 2.1

**Dyddiad adolygiad diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

**ORDINHAD 31**
**GWEITHDREFNAU DISGYBLU A CHWYNO SYDD YN YMWNEUD Â'R IS-GANGHELLOR, YR UWCH DDIRPRWY IS-GANGHELLOR A'R DIRPRWY IS-GANGELLORION**

1. Mae'r Ordinhad hon yn gosod y drefn briodol ar gyfer ystyried cwynion a materion disgyblu sydd yn ymwneud â'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Gangellorion.

2. Oherwydd lefel uchel y swyddi hyn, bernir nad yw'r Ordinhadau sy'n berthnasol i staff eraill y Brifysgol ynghylch disgyblu, atal o'r swydd a chwynion yn addas.

3. <u>Cwynion</u>

    1. Gall yr Is-Ganghellor gyflwyno cwyn ynghylch ei gyflogaeth neu ei chyflogaeth yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Cyngor. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn anffurfiol. Serch hynny, os bydd angen, bydd Cadeirydd y Cyngor yn sefydlu panel o aelodau o'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol i ddyfarnu ynghylch y mater a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd.

    2. Gall Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor gyflwyno cwyn ynghylch eu cyflogaeth yn ysgrifenedig i'r Is-Ganghellor. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn anffurfiol. Serch hynny, os bydd angen, bydd yr Is-Ganghellor yn gofyn i Gadeirydd y Cyngor sefydlu panel o aelodau o'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol i ddyfarnu ar y mater a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Pe bai'r gŵyn yn ymwneud â'r Is-Ganghellor, gellir cyflwyno'r mater yn uniongyrchol yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Cyngor.

    3. Gall yr Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Gangellorion apelio yn erbyn penderfyniad a wneir gan y panel o aelodau o'r Cyngor, ac os digwydd hynny bydd Cadeirydd y Cyngor yn sefydlu panel o aelodau gwahanol o'r Cyngor i wrando ar yr apêl ac i benderfynu yn ei chylch.

4. <u>Perfformiad</u>

    1. Bydd materion ynghylch perfformiad yn cael eu codi â'r Is-Ganghellor gan Gadeirydd y Cyngor, a fydd yn pennu'r gwelliannau angenrheidiol a'r amserlen am y gwella hwnnw. Os na cheir gwelliant digonol, gall y mater arwain at gymryd camau disgyblu.

    2. Bydd materion o'r fath sydd yn ymwneud ag Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor yn cael eu codi â hwy gan yr Is-Ganghellor. Os na cheir gwelliant digonol, gall y mater arwain at gymryd camau disgyblu.

5. <u>Diswyddo</u>
Bydd Cadeirydd y Cyngor yn codi unrhyw faterion nad ydynt yn gysylltiedig â pherfformiad nag ymddygiad ond a all arwain at ddiswyddo (er enghraifft: dileu'r swydd, penodiad anghyfreithlon, neu 'ryw reswm arall o sylwedd') â'r Is-Ganghellor, a bydd Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu ar y camau angenrheidiol i'w cymryd i ymdrin â mater. Bydd yr Is-Ganghellor yn codi unrhyw faterion o'r fath sy'n ymwneud ag un o'r Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion neu'r Dirprwy Is-Gangellorion, a chytunir ar unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd i ymdrin â'r mater drwy ymgynghori â Chadeirydd y Cyngor.

6. <u>Disgyblu</u>

    1. Os bydd unrhyw fater disgyblu yn codi, gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn anffurfiol. Serch hynny, os bydd angen, bydd Cadeirydd y Cyngor yn sefydlu panel o aelodau o'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol i archwilio ac i argymell i'r Cyngor y camau priodol i'w cymryd. Gall

Cadeirydd y Cyngor hefyd sefydlu ail banel i wrando ar apêl pe bai angen gwneud hynny. Y Clerc i'r Cyngor fydd yn Ysgrifennydd i'r paneli.

2. Os yw Cadeirydd y Cyngor ac un o'r Dirprwy Gangellorion o'r farn y gallai presenoldeb yr Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor amharu ar yr archwiliad, gellid eu hatal o'r gwaith ar dâl llawn ar unrhyw adeg yn y broses ddisgyblu. Ni welir bod bai ar y rhai sy'n cael eu hatal o'r gwaith a byddai'r drefn hon yn golygu y byddai modd i'r archwiliad fynd yn ei flaen heb oedi afresymol neu mewn amgylchiadau lle y bydd Cadeirydd y Cyngor ac un o'r Dirprwy Gangellorion o'r farn y byddai'n amhriodol i'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor fod yn bresennol yn y gwaith. Bydd yr atal o'r gwaith yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd hysbysiadau bod unigolion yn cael eu hatal o'r gwaith yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig gan y Clerc i'r Cyngor.

3. Dylai'r paneli disgyblu ac apelio gynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, ac un o'r Dirprwy Gangellorion fydd yn eu blith ac yn gadeirydd ar y panel. Dylai'r rhai ar y panel apelio fod yn unigolion sydd heb fod yn gysylltiedig â'r achos o'r blaen. Ni fydd Cadeirydd y Cyngor yn aelod o'r naill banel na'r llall.

4. Mewn unrhyw gyfarfod o'r paneli disgyblu neu apelio, gwahoddir yr Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor i fod yn bresennol a rhoi cyflwyniad i'r panel cyn y gwneir penderfyniad. Gall cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr fod yn bresennol gyda'r unigolyn dan sylw. Gall y Dirprwy Ganghellor sy'n cadeirio'r panel ofyn i'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor adael y cyfarfod am unrhyw ran o'r cyfarfod hwnnw.

5. Gall y panel disgyblu benderfynu drwy fwyafrif syml o'r rhai sydd yn bresennol i argymell peidio â chymryd camau pellach neu i argymell cosb briodol. Gall penderfyniad y panel disgyblu gynnwys argymhelliad i'r Cyngor i ddiswyddo'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor a'i symud o'r swydd neu'r gyflogaeth yn y Brifysgol, ac argymhelliad ynghylch a ddylid diswyddo'n ddiannod (hynny yw, heb rybudd na thaliad yn lle rhybudd) ynteu diswyddo â rhybudd neu â thaliad yn lle rhybudd.

6. Os bydd y panel disgyblu yn argymell diswyddo'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor, a'i symud o'r swydd, bydd yr unigolyn dan sylw yn cael gwybod am argymhelliad y Cyngor a chael copi o'r adroddiad cysylltiedig ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl i'r panel dod i'w benderfyniad.

7. O fewn y 10 niwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am benderfyniad y panel, mae hawl gan yr Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor apelio yn erbyn penderfyniad y panel disgyblu. Bydd yr apêl yn cael ei gwneud yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Cyngor a fydd yn cynnull y panel apelio i wrando ar yr apêl cyn i'r Cyngor gael gwybod am benderfyniad y panel disgyblu.

8. Bydd y panel apelio yn adolygu'r broses a rhesymoldeb argymhelliad neu argymhellion y panel disgyblu i'r Cyngor; ni fydd yn cynnal ailwrandawiad ar yr achos ac eithrio mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaeth i'r amlwg nas ystyriwyd gan y panel disgyblu. Bydd y panel apelio yn darparu adroddiad i Gadeirydd y Cyngor. Rhoddir gwybod i'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor am ganfyddiadau'r panel apelio ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl i'r panel ddod i'w benderfyniad.

9. Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cynnull cyfarfod arbennig o'r Cyngor i ystyried yr adroddiad neu'r adroddiadau gan y panel disgyblu a'r panel apelio (os yw panel apelio wedi'i gynnull) a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Yr un gofynion o ran cworwm fydd yn weithredol ag sydd i unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor, ac aelodau annibynnol fydd y mwyafrif o'r Cyngor.

10. Mewn unrhyw gyfarfod arbennig o'r Cyngor lle yr ystyrir adroddiad neu adroddiadau'r panel disgyblu a'r panel apelio (lle y bo'n berthnasol), gwahoddir yr Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor i fod yn bresennol a rhoi cyflwyniad i'r Cyngor cyn y gwneir penderfyniad a chaiff yr unigolyn dan sylw ddod â chynrychiolydd i'r cyfarfod hwnnw. Gall Cadeirydd y Cyngor ofyn i'r Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor adael y cyfarfod am unrhyw ran o'r cyfarfod.

11. Gwneir penderfyniad i dderbyn yr argymhelliad neu'r argymhellion yn llawn, yn rhannol, neu i benderfynu ar gamau priodol eraill drwy fwyafrif o holl aelodau'r Cyngor, y bydd aelodau annibynnol yn fwyafrif ohonynt. Os bydd y bleidlais yn gyfartal rhwng y rhai o blaid ac yn erbyn, bydd gan Gadeirydd y Cyngor ail bleidlais benderfynol.

12. Bydd penderfyniad y Cyngor yn benderfyniad terfynol.

9. <u>Y Gymraeg – Hawliau Gweithwyr</u>

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 mae gan weithwyr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg
(i) i weud cwyn
(ii) i ymateb i gŵyn neu honiad

Ac mae gan weithwyr yr hawl hefyd i defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd lle maent yn destun
(iii) cwyn a honiad (neu os ydynt wedi gwneud cwyn)
(iv) trafodion disgyblaethol
(v) trafodaethau'r cynllun cyfraniad effeithiol
(vi) cyfarfodydd ymgynghori unigol

Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y mae'r Brifysgol, ar y cyd a'i hundebau llafur cydnabyddedig, wedi ymgorffori'r gofynion uchod yn holl ddogfennau polisi a gweithdrefnol perthnasol yr adran Adnoddau Dynol.